Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

'Mesurau Arbennig' AGIC Parthed yr Adolygiad Arbennig o Wasanaethau Mamolaeth Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

Cyfarfod Misol, 10 Rhagfyr 2008
Yn Llanfrechfa Grange am 3.30pm

COFNODION Y CYFARFOD

Yn bresennol: Peter Higson (Cadeirydd), Marion Andrew-Evans, Andrew Cottom, Carol Shillabeer, Patrick Coyle, Francis Jones, Anjou Kumar, Lisa Howells a Mike Frost.

Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Grant Robinson, Brian Willott a Jean Keats.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

Materion yn Codi

Roedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth i nodi'r hyn y byddai disgwyl i'r Ymddiriedolaeth ei gyflawni cyn diddymu'r mesurau arbennig. Mae'r llythyr wedi bod o fudd i'r Ymddiriedolaeth, ac yn y dyfodol bydd yn cael ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd i wella monitro.

Mae copi wedi'i atodi o'r llythyr at yr Ymddiriedolaeth.

Cynnydd o ran cyflawni Cynllun Gweithredu'r Ymddiriedolaeth

1. Yn y cyfarfod misol â'r Ymddiriedolaeth ar 10 Rhagfyr 2008 nodwyd y canlynol:

CAMAU GWEITHREDU A GYFLAWNWYD:	
Cam Gweithredu 3:	Obstetrydd ymgynghorol â chyfrifoldebau cyfarwyddwr clinigol wedi'i benodi.
Cam Gweithredu 7:	Fframwaith ar gyfer gwella'r ffordd yr adroddir i'r Bwrdd wedi'i gymeradwyo a'i ledaenu.

***CYNNYDD SYLWEDDOL A NODWYD*:**	
Cam Gweithredu 4:	Mwy o ymchwil wedi'i sicrhau er mwyn cael presenoldeb ymgynghorydd yn Ysbyty Nevill Hall. Adolygiad a dadansoddiad manwl wedi'i gyflawni o gynlluniau swydd.
Cam Gweithredu 5:	Rhaglen hyfforddi ALERT a rhaglen amlddisgyblaethol i fod i gychwyn yn gynnar yn 2009. Yr obstetrydd arweiniol a'r fydwraig arweiniol i fod yn gydgyfrifol am archwiliad 2009.
Cam Gweithredu 8:	20 o fydwragedd wedi'u recriwtio. 11 o staff cymorth hefyd wedi'u recriwtio.
Cam Gweithredu 10:	Wedi gorffen recriwtio cydgysylltwyr ychwanegol ar gyfer wardiau esgor.

Sylwadau AGIC ar y Cyflawni Hyd Yma

2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud cynnydd, ac mae'r broses gyflawni wedi cyflymu mewn rhai meysydd.

Unrhyw Fater Arall

Trafodwyd Cyhoeddi'r Adroddiad. Cytunwyd y gallai'r Ymddiriedolaeth rannu'r drafft ag obstetryddion a staff bydwreigiaeth uwch, ac y gallai roi unrhyw sylwadau i AGIC cyn pen yr wythnos ddilynol.

Disgwylid cyhoeddi'r adroddiad ar 11 Chwefror 2009. Byddai AGIC am gyhoeddi cyd-ddatganiad i'r wasg ac nid oedd yn disgwyl cynnal cynhadledd i'r wasg. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal cyn cyhoeddi'r adroddiad, er mwyn cymeradwyo'r trefniadau ymarferol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

27 Chwefror 2009.